Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Aberffraw a gynhaliwyd yn Neuadd Glannau Ffraw am 7 yh. nos Fercher 15fed Ionawr 2020

Presennol: *J H Owens (Cad), K Woods, A Jones, M T Smithurst, C G Topps, E Evans, W Hughes, Cyng Bryan Owen, JHO a KW yn cofnodi*

Ymddiheuriadau:

1. **Cofnodion**
Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 20/11/2019 eu derbyn yn gywir ar sail yr Adroddiad Saesneg a ddosbarthwyd gyda'r agenda. MT yn cynnig, eilwyd gan AJ.

3 **Y Gyllideb a Phriseb 2020 – 2021**
Rhannodd y Cadeirydd gopiau o'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2020-2021 a oedd wedi ei pharatoi gan y cyn-glerc..
Cynigwyd gan MTS ac eilwyd gan CGT fod Cyngor Cymuned Aberffraw yn cymeradwyo'r Gyllideb ar gyfer 2019-2020.
Cynigwyd gan KW ac eilwyd gan EE y dylid gostwng y priseb ar gyfer 2020-2021 i £6,500.00

4 **Unrhyw Fater Arall**
4.1. Porth Trecastell – Cafwyd adroddiad nad oes llinellau melyn wedi eu paentio hyd yma. Cyng B Owen yn cadarnhau fod y gwaith wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor Sir.
4.2. Swydd y Clerc – Dim ymholiadau pellach mewn perthynas â swydd y Clerc. JHO i drefnu ail hysbysebu.